Dogfen Reoleiddio
POLISÏAU A GWEITHDREFNAU RHEOLEIDDIO

Polisi Capio Ffioedd

Mehefin 2016

Rheoli fersiynau
Cymeradwywyd y fersiwn hon (1) o bolisi Capio ffioedd Cymwysterau Cymru ar 25 Mehefin 2016 gan Fwrdd Cymwysterau Cymru.

Mae Adran 47(2) o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 (y "Ddeddf"), yn ei gwneud yn ofynnol i Cymwysterau Cymru gyhoeddi datganiad o'i bolisi mewn perthynas â chapio ffioedd. Bydd Cymwysterau Cymru yn adolygu ei ddatganiadau polisi a baratowyd dan adran 47 o'r Ddeddf, ac os bydd o'r farn ei bod yn briodol, yn dilyn adolygiad, bydd yn paratoi datganiadau diwygiedig. Bydd Cymwysterau Cymru yn adolygu'r ddogfen hon o leiaf unwaith y flwyddyn. Gallai adolygiad o'r fath ystyried effeithiolrwydd y polisi a'i gymhwysedd parhaus. Disgwylir i'r datganiad hwn gael ei adolygu nesaf erbyn 30 Medi 2017 fan bellaf.

Croesewir adborth ar y polisi hwn ar unrhyw adeg. Anfonwch eich sylwadau i policy@qualificationswales.org. Noder mai dim ond sylwadau ynglŷn â chyffredinolrwydd y ddogfen hon, yn hytrach na sefyllfaoedd penodol, a gaiff eu hystyried fel rhan o'r adolygiad hwnnw.

Egwyddorion cyffredinol y Polisi Capio Ffioedd

Mae'r datganiad polisi hwn ar gyfer cyrff dyfarnu, Llywodraeth Cymru a phawb sy'n defnyddio cymwysterau yng Nghymru. Mae'n egluro o dan ba amgylchiadau y gall Cymwysterau Cymru osod terfyn ar y tâl y gall corff dyfarnu ei godi mewn perthynas â dyfarnu cymwysterau a ariennir yn gyhoeddus sydd wedi'u cymeradwyo neu wedi'u dynodi gan Cymwysterau Cymru o dan Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015.

POLISI CAPIO FFIOEDD

1. Gall Cymwysterau Cymru osod amod capio ffioedd sy'n cyfyngu ar y tâl a godir gan gyrff dyfarnu a gydnabyddir o dan Adran 4 *(Cydnabod cyrff dyfarnu)* o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 mewn perthynas â dyfarnu cymhwyster cymeradwy neu ddynodedig a ariennir yn gyhoeddus.

2. Wrth ystyried priodoldeb amod capio ffioedd, yr uchafswm a bennir ac am ba mor hir y bydd yr amod mewn grym, byddwn yn ystyried a gyflwynir y cymwysterau'n effeithlon er mwyn sicrhau gwerth am arian. Wrth ystyried p'un a yw cymwysterau'n sicrhau gwerth am arian, bydd Cymwysterau Cymru yn adolygu sail tystiolaeth eang er mwyn adolygu'r ffactorau a amlinellir yn y polisi hwn.

3. Efallai y byddwn yn gosod amod capio ffioedd yn unol â'n Prif Nodau lle bydd ffioedd yn cael effaith ar effeithlonrwydd y system gymwysterau o ran diwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru megis lle rydym wedi canfod bod lefel y tâl a godir am y dyfarniad yn cael effaith uniongyrchol a niweidiol ar allu dysgwyr i gael mynediad at gymwysterau a ariennir yn gyhoeddus.

4. Efallai y bydd nifer o amgylchiadau lle y bydd yn briodol i Cymwysterau Cymru gymhwyso meini prawf eraill i bennu a ddylid gosod amod capio ffioedd mewn perthynas â gwerth am arian. Mewn achosion o'r fath, bydd Cymwysterau Cymru yn rhoi gwybod beth fydd meini prawf o'r fath ac yn casglu sail tystiolaeth wrth bennu a ddylid cymhwyso meini prawf eraill.

5. Wrth bennu'r terfyn ar gyfer amod capio ffioedd, efallai y byddwn yn ystyried, lle y bo'n briodol, ffactorau sy'n cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:
   5.1. costau rhesymol dyfarnu'r cymhwyster i gyrff dyfarnu a darparwyr dysgu;
   5.2. costau rhesymol i ddysgwyr sy'n astudio ar gyfer y cymhwyster o'u cymharu â chymwysterau tebyg sydd ar gael;

5.3. y farchnad y caiff y cymhwyster ei gynnig ynddi a hyfywedd economaidd y corff dyfarnu sy'n dyfarnu'r cymhwyster.

6. Byddwn yn pennu hyd yr amod capio ffioedd yn seiliedig ar ffactorau sy'n cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:
   6.1. pa mor hir y mae dysgwyr yn debygol o astudio cyrsiau sy'n arwain at y cymhwyster;
   6.2. dyddiad dod i ben y cymhwyster;
   6.3. dyddiad adolygu addas er mwyn cadarnhau a oes angen amod capio ffioedd o hyd.

7. Efallai y byddwn, ar ôl ystyried y materion a amlinellir ym mharagraff 2 i 5 uchod, yn ystyried gosod terfyn cyffredinol ar y tâl a godir gan bob corff dyfarnu mewn perthynas â dyfarnu cymhwyster neu ddisgrifiad cymhwyster.

8. Byddwn yn ymgynghori â chyrff dyfarnu cyn cyflwyno amod capio ffioedd o unrhyw fath a byddwn yn cyflwyno hysbysiad i unrhyw gorff dan sylw yn nodi:
   8.1. yr amod capio ffioedd y mae Cymwysterau Cymru yn cynnig ei osod
   8.2. eglurhad pam bod Cymwysterau Cymru yn cynnig gosod yr amod
   8.3. y dyddiad erbyn pryd y bydd Cymwysterau Cymru yn penderfynu p'un a ddylid gosod yr amod ai peidio.

9. Bydd Cymwysterau Cymru yn ystyried unrhyw sylwadau a wneir gan gorff cydnabyddedig.
10. Pan fyddwn yn gosod amod capio ffioedd byddwn yn rhoi gwybod i'r corff dyfarnu beth yw'r rhesymeg dros y penderfyniad a fydd yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r canlynol:
    10.1 y modd y nodwyd y mater;
    10.2 y sail dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r penderfyniad (gan gynnwys ymgynghori);
    10.3 unrhyw opsiynau amgen a ystyriwyd;
    10.4 manylion yr amod capio ffioedd (gan gynnwys y dyddiad y daw'r amod i rym)
    10.5 yr hawl i wneud cais am adolygiad o'r penderfyniad o dan y Polisi Apeliadau Rheoleiddiol a'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno apêl.